Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Gofynnwch am: Cyfathrebu
☏ 01656 641150
✉ Caseinfo@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 9 Medi 2024

---

Dyfed Edwards
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Trwy ebost yn unig**
dyfed.edwards@wales.nhs.uk
carol.shillabeer3@wales.nhs.uk

**Llythyrau Blynyddol 2023/24**

Annwyl Dyfed

**Rôl OGCC**

Fel y gwyddoch, rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus, ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr, gosod safonau ar gyfer ymdrin â chwynion gan gyrff cyhoeddus a sbarduno gwelliant mewn ymdrin â chwynion a dysgu o gwynion. Rwyf hefyd yn ymgymryd ag ymchwiliadau i wasanaethau cyhoeddus ar fy liwt fy hun.

**Diben y llythyr**

Bwriad y llythyr hwn yw rhoi diweddariad ar waith fy swyddfa, rhannu materion allweddol ar gyfer byrddau iechyd yng Nghymru a thynnu sylw at unrhyw faterion penodol ar gyfer eich sefydliad, ynghyd â chamau yr hoffwn i'ch sefydliad eu cymryd.

**Trosolwg o 2023/24**

Mae'r llythyr hwn, fel bob amser, yn cyd-daro â'm Hadroddiad Blynyddol - "Pennod Newydd yn Datblygu" - a daw ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod o dan y chwyddwydr, ac o dan bwysau sylweddol. Mae fy swyddfa wedi gweld cynnydd arall yn nifer y bobl sy'n gofyn am ein cymorth - cynnydd o 17% mewn cysylltiadau cyffredinol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda bron i 10,000 o ymholiadau a chwynion wedi'u derbyn. Mae ein llwyth achosion wedi cynyddu yn sylweddol - gan 37% - ers 2019.



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Yn 2023/24, gwnaethom ystyried a chau mwy o ymholiadau a chwynion nag yr ydym erioed wedi'u gwneud o'r blaen, a gwnaethom leihau'r gost gyfartalog ar gyfer pob achos ac ymchwiliad.  Dechreuom y flwyddyn gyda ffocws ar leihau ein hachosion sy'n heneiddio, sef y rhai dros 12 mis oed, o 50% erbyn diwedd y flwyddyn.  Yr achosion hyn yn aml yw'r rhai mwyaf cymhleth a gofidus i'r bobl sy'n cwyno.  Mae'n bleser mawr gennyf ddweud ein bod wedi rhagori ar y targed hwn, gan leihau ein hymchwiliadau hŷn o dros 70%.  Rydym bellach ar y trywydd cywir i gyflawni ein hamcan i gwblhau ymchwiliadau i gwynion o fewn 12 mis.

**Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus a Chydymffurfiaeth ag Argymhellion**

Cawsom 939 o gwynion am fyrddau iechyd y llynedd - tua'r un nifer â'r flwyddyn flaenorol.  Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn gynnar) mewn 31% o gwynion byrddau iechyd - cyfran debyg i flynyddoedd blaenorol.

Y llynedd, cawsom 214 o gwynion am Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gwnaethom gau 256 (cafodd rhai cwynion eu cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol), a gwnaethom ymyrryd mewn 32% o achosion.  Ceir rhagor o wybodaeth am y cwynion y gwnaethom ymdrin â nhw y llynedd yn yr atodiadau.

Cyhoeddom dri adroddiad cyhoeddus ers budd y cyhoedd yn ymwneud â gofal a thriniaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd.  Cyhoeddwyd un ohonynt yn dilyn ymchwiliad a gynhaliwyd ar ein liwt ein hunain.  Mae'n falch gennyf fod y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'r argymhellion yn yr adroddiadau hyn.

Ar y cyfan, gwnaethom 253 argymhelliad i'ch bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn.  I sicrhau bod ein hymchwiliadau a'n hadroddiadau yn sbarduno gwelliant, gwnawn waith dilynol ar gydymffurfiaeth â'r argymhellion y cytunwyd arnynt gyda'ch sefydliad.  Yn 2023/24, roedd angen cydymffurfio â 246 argymhelliad a chydymffurfiwyd â 58% o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.  Cydymffurfiwyd â'r gweddill, ond y tu allan i'r amserlenni y cytunwyd arnynt neu maent yn parhau i fod heb eu cyflawni yn ystod 9 Ebrill 2024.

Caiff argymhellion ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio ag argymhellion bob amser eu cytuno gyda'r corff cyhoeddus dan sylw cyn eu cwblhau, ac felly rydym yn disgwyl sefydliadau i gydymffurfio o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

Yn dilyn yr adroddiad a gyhoeddodd fy swyddfa ym mis Mehefin 2023, Rhoi Diwedd ar yr Un Hen Gân Beunyddiol 2: Cyfle i newid y ffordd rydym yn delio â chwynion?' Hoffwn ddiolch i'r Bwrdd Iechyd am ei ystyriaeth o'r adroddiad a'r argymhellion. Rwy'n hyderu ei fod wedi sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o ganfyddiadau ac argymhellion ar achosion y gwnaethom eu hystyried y llynedd yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol eich Bwrdd Iechyd ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ac Ansawdd.

**Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus**

Gwnaethom barhau â'n gwaith ar gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus y llynedd a buom yn gweithio ar ein hail ymchwiliad ehangach ar ein liwt ein hunain.  Mae'r ymchwiliad yn ystyried asesiadau o anghenion gofalwyr a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru.  Bydd fy adroddiad ar y gwaith hwn yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi yn y dyfodol agos.  Rydym wedi parhau â'n gwaith ar safonau ymdrin â chwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac erbyn hyn mae gennym 56 o gyrff cyhoeddus yn dilyn ein polisi enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae'r cyrff cyhoeddus hyn yn cyfrif am tua 85% o'r cwynion a gawn.

Gwnaethom barhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion am drydedd flwyddyn, gyda data, a gasglwyd gan gyrff cyhoeddus, bellach yn cael eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn.  Mae'r data hwn yn ein galluogi i weld gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun - er enghraifft, y llynedd, aeth 10% o gwynion a wnaed i Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ymlaen i gael eu cyfeirio at OGCC – y gyfran uchaf o unrhyw Fwrdd Iechyd.  Byddwn yn annog pob bwrdd iechyd i ddefnyddio'r data hwn i ddeall eu perfformiad o ran cwynion yn well a sicrhau bod pob cwyn yn cael ei chofnodi'n briodol.

Rwyf wedi ysgrifennu'n ddiweddar at eich Prif Weithredwr am y gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion a gofnodwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dros y 3 blynedd diwethaf – 4,854 yn 2021/22 i lawr i 2,469 yn 2023/24.  Ar yr un pryd, mae nifer y cwynion a gyfeiriwyd at fy swyddfa am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fel y nodir uchod, wedi parhau'n uchel. Rwy'n siŵr y byddwch am gael sicrwydd bod yr holl gwynion a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi'n gywir, bod pawb sy'n dymuno cwyno yn gallu gwneud hynny a bod yr hyn a ddysgir o gwynion yn cael ei ddefnyddio i wella canlyniadau i bob defnyddiwr gwasanaeth.

Mae cydweithwyr o'm Tîm Gwella yn parhau i gwrdd yn rheolaidd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i drafod cydymffurfiaeth â'n hargymhellion a'n gwaith safonau cwynion.  Rydym wedi gweld budd gwirioneddol yn dod o'r sgyrsiau hyn, yn ogystal â gwell perthnasoedd gwaith, a hoffem ddiolch i Denise Williams a'u tîm am eu gwaith gyda'n swyddogion.

**Camau yr hoffem i'ch sefydliad eu cymryd**

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Bwrdd yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn.

- Ystyried y data yn y llythyr hwn, ynghyd â'ch data eich hunain, i ddeall mwy am eich perfformiad ar gwynion, gan gynnwys unrhyw batrymau neu dueddiadau a chydymffurfiaeth eich sefydliad ag argymhellion a wnaed gan fy swyddfa.

- Rhoi sicrwydd bod yr holl gwynion a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi'n gywir, bod pawb sy'n dymuno cwyno yn gallu gwneud hynny a bod yr hyn a ddysgir o gwynion yn cael ei ddefnyddio i wella canlyniadau i bob defnyddiwr gwasanaeth.


- Yn rhoi copi i'm swyddfa o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023/24 ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ac Ansawdd.

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y Bwrdd yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi, a'ch timau, am eich gwaith gyda'm swyddogion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae eu gwaith yn bwysig i sicrhau bod cleifion a theuluoedd yn cael ymatebion amserol a thrylwyr i gwynion, ac o ran gwella canlyniadau i bob defnyddiwr gwasanaeth – nid dim ond y rhai sy'n cwyno.

Yn gywir,

**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus



Cc. Carol Shillabeer, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Taflen Ffeithiau**

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| **Bwrdd Iechyd** | **Cwynion a Gafwyd** | **Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion** |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 175 | 0.30 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 214 | 0.31 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 150 | 0.30 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 109 | 0.25 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 138 | 0.36 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 21 | 0.16 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 132 | 0.35 |
| Cyfanswm | 939 | 0.30 |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cwynion a Gafwyd | % rhannu |
|---|---|---|
| **Derbyniadau/rhyddhau a gweithdrefnau trosglwyddo** | 4 | 2% |
| **Iechyd Meddwl Oedolion** | 16 | 9% |
| **Gwasanaethau Ambiwlans** | 0 | 0% |
| **Gweithdrefnau apwyntiadau (gan gynnwys cleifion allanol)** | 6 | 3% |
| **Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc** | 2 | 1% |
| **Triniaeth glinigol yn yr ysbyty** | 107 | 50% |
| **Triniaeth glinigol y tu allan i ysbyty*** | 14 | 7% |
| **Ymdrin â Chwynion** | 36 | 17% |
| **Covid-19** | 1 | 0% |
| **Gofal Parhaus** | 2 | 1% |
| **Dadgofrestru** | 0 | 0% |
| **Datgelu gwybodaeth bersonol / colli data** | 0 | 0% |
| **Cyllid** | 1 | 0% |
| **Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol** | 0 | 0% |
| **Cofnodion meddygol/safonau cadw cofnodion** | 4 | 2% |
| **Meddyginiaeth > Dosbarthu presgripsiynau** | 0 | 0% |
| **Gwasanaethau anfeddygol** | 0 | 0% |
| **Nosocomiaidd*** | 0 | 0% |
| **Arall*** | 2 | 1% |
| **Gofal Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau** | 0 | 0% |
| **Parcio (gan gynnwys gorfodi a beilïaid)** | 0 | 0% |
| **Materion rhestr cleifion** | 5 | 2% |
| **Cyfathrebu gwael/dim cyfathrebu neu fethiant i ddarparu gwybodaeth** | 2 | 1% |
| **Gofal Carcharorion** | 3 | 1% |
| **Gweithdrefnau recriwtio a phenodi** | 0 | 0% |
| **Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth** | 2 | 1% |
| **Rheoleiddio ac Arolygu (gan gynnwys darpariaeth y sector preifat)** | 1 | 0% |
| **Anghwrteisi/ymddygiad anystyriol/agwedd staff** | 2 | 1% |
| **Gwasanaethau i bobl ag anabledd gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl** | 0 | 0% |
| **Gwasanaeth ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed (ee gydag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl)** | 0 | 0% |
| Cyfanswm | **214** | |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Tu hwnt i Awdurdodaeth | 47 | 18% |
| Cynamserol | 30 | 12% |
| Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 83 | 32% |
| Datrys yn Gynnar/ setliad gwirfoddol* | 40 | 16% |
| Wedi rhoi'r gorau iddi | 3 | 1% |
| Adroddiadau Eraill - Heb eu Cadarnhau | 12 | 5% |
| Adroddiadau Eraill Wedi'u Cadarnhau | 37 | 14% |
| Adroddiadau Diddordeb Cyhoeddus* | 4 | 2% |
| Adroddiadau Diddordeb Arbennig* | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **256** | |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | **Nifer yr ymyriadau** | **nifer y cwynion a gaewyd** | **% o ymyriadau** |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 73 | 195 | 37% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 81 | 256 | 32% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 34 | 158 | 22% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 39 | 129 | 30% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 55 | 154 | 36% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 3 | 21 | 14% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 41 | 141 | 29% |
| **Cyfanswm** | **326** | **1054** | **31%** |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Atodiad E – Cymhariaeth o berfformiad cydymffurfio

| Brwdd Iechyd | Nifer yr argymhellion a wnaed yn 2023-24 | Nifer yr argymhellion sy'n ddyledus yn 2023-24 | % yr argymhellion, y cydymffurfiwyd â nhw ar amser |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 209 | 208 | 75% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 104 | 95 | 81% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 123 | 121 | 60% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 119 | 127 | 62% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 160 | 151 | 81% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 253 | 246 | 58% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 10 | 12 | 67% |

**Taflen Wybodaeth**

Mae **Atodiad A** yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yn 2023/24. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun yn seiliedig ar nifer y bobl y mae pob bwrdd iechyd yn eu gwasanaethu yn ôl pob sôn.

Mae **Atodiad B** yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Mae **Atodiad C** yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Bwrdd Iechyd yn 2023/24. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Mae **Atodiad D** yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yn 2023/24. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae **Atodiad E** yn dangos perfformiad o ran cydymffurfiad ar gyfer pob Bwrdd Iechyd.